**Claire Homard**
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)
Chief Officer (Education and Youth)

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| Your Ref/Eich Cy | |
| Our Ref/Ein Cy | CH |
| Date/Dyddiad | 17 Rhagfyr 2021 |
| Ask for/Gofynner am | Claire Homard |
| Direct Dial/Rhif Union | 01352 704190 |

Annwyl Rieni a Gofalwyr

**Trefniadau'r Ysgolion – Ionawr 2022**

Mae Gweinidog Addysg a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru, Jeremy Miles, wedi rhoi cyfarwyddyd heddiw i bob ysgol yng Nghymru ddechrau tymor y gwanwyn ym mis Ionawr gyda dau ddiwrnod cynllunio.

Pwrpas hyn yw rhoi cyfle i'r ysgolion bwyso a mesur lefelau absenoldeb eu gweithlu ar ôl toriad y Nadolig a rhoi amser iddynt ailedrych ar eu hasesiadau risg er mwyn sicrhau bod modd iddynt weithredu'n ddiogel. Cynghorwyd yr ysgolion i sicrhau bod y lefelau uchaf o reolaethau Covid yn eu lle.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi dweud wrth yr ysgolion i fod yn barod i newid ar fyr rybudd i ddysgu o bell pe bai'r sefyllfa Covid yn gwaethygu eto a bod Llywodraeth Cymru'n gorfod gwneud y penderfyniad anodd i gau'r ysgolion ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb. Nid yw hon yn sefyllfa y byddai unrhyw un ohonom yn dymuno bod ynddi ond mae'n rhaid i ni fod yn barod.

Yn Sir y Fflint bydd y diwrnodau cynllunio hyn ar **ddydd Iau 6 Ionawr a dydd Gwener 7 Ionawr 2022** a bydd yr holl ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd **Llun 10 Ionawr 2022**. Os oedd gan ysgolion ddiwrnodau hyfforddi wedi'u cynllunio ar y dyddiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn iddynt eu cynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol. Bydd ysgolion yn rhoi gwybod i rieni pan fydd y dyddiadau newydd ar gyfer y diwrnodau hyfforddi wedi'u cytuno.

Ni fydd unrhyw ddarpariaeth gofal plant ar gyfer dysgwyr agored i niwed ar y ddau ddiwrnod yma felly bydd yn rhaid i rieni a gofalwyr wneud trefniadau.

County Hall, Mold. CH7 6ND
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6ND
www.siryfflint.gov.uk

YN GADARN O BLAID · POBL ANABL
POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg

Bydd disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cael taliad am y ddau ddiwrnod hwn; bydd y taliad yn cael ei ychwanegu'n awtomatig at y taliadau uniongyrchol y bydd y Cyngor yn eu gwneud dros wyliau'r Nadolig. Ni fydd cludiant ysgolion yn gweithredu tan 10 Ionawr.

Bydd ysgolion unigol yn cysylltu â rhieni i'w hatgoffa am eu trefniadau ar gyfer 10 Ionawr, yn cynnwys unrhyw fesurau diogelwch newydd ar gyfer dechrau'r tymor.

Mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu bod profion llif unffordd yn cynyddu o ddwywaith i deirgwaith yr wythnos o fis Ionawr. Argymhellir yn gryf hefyd bod disgyblion ysgolion uwchradd a'r gweithlu addysg yn cymryd tri phrawf llif unffordd cyn dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr h.y. ar y dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener yn yr wythnos yn dechrau 3 Ionawr, cyn i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol ar 10 Ionawr. Bydd ysgolion yn rhoi cadarnhad uniongyrchol i rieni ynghylch eu hamserlenni profi. Yn ogystal bydd gorchuddion wyneb yn dal i gael eu hargymell yn gryf mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd dan do i bawb ond unigolion sydd wedi'u heithrio.

Mae hi'n bwysig nad oes unrhyw un â symptomau Covid-19 yn mynd i'r ysgol a dylent drefnu prawf PCR.

Rwy'n sylweddoli y bydd y penderfyniad hwn gan Lywodraeth Cymru yn peri pryder ac yn creu heriau i rieni a gofalwyr, ond mae'n hanfodol bwysig ein bod yn barod ar gyfer beth bynnag y byddwn yn ei wynebu ym mis Ionawr.

Yn y cyfamser, hoffwn ddymuno Nadolig diogel a heddychlon i chi a'ch teuluoedd.

Yn gywir



Claire Homard
Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid